# CYNGOR SIR PENFRO

## GORCHYMYN SIR BENFRO (FFAIR GŴYL SAN MIHANGEL) (STRYD FAWR & EAST BACK, PENFRO) (GWAHARDDIAD TROS DRO AR DRAFFIG CERBYDOL) 2025

---

Rhoddir HYSBYSIAD drwy hyn y bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud gorchymyn o dan adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 i atal rhwystr ac ati.

**YN GYMAINT** ag y bydd y Stryd Fawr & East Back, Penfro, yn ystod rhai oriau arbennig dydd Mercher y 08, dydd Iau'r 9, dydd Gwener y 10, dydd Sadwrn y 11 a dydd Sul y 12 Hydref 2025, oherwydd cynnal Ffair, yn orlawn ac yn debygol o fod wedi ei rhwystro.

Mae Cyngor Sir Penfro yn unol â'r pwerau a roddir gan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 **TRWY HYN YN GORCHYMYN A CHYFARWYDDO** i ddibenion atal rhwystrau yn yr Heol a enwyd ar y dyddiau a enwyd, y perchir y rheoliadau canlynol:-

1. Yn amodol ar y darpariaethau sydd yn erthygl 3, bydd y Stryd Fawr & East Back, Penfro, wedi ei chau i bob traffig cerbydol yn cynnwys beiciau pedalau **dydd Mercher y 08 Hydref 2025**, rhwng yr amserau 13:00 a 22:00 er mwyn gallu codi'r ffair yn ddiogel a dydd **Sul y 12 Hydref, 2025** rhwng yr amserau 06:00 a 10:30, er mwyn tynnu'r ffair i lawr.

2. Yn amodol ar y darpariaethau hynny sydd yn erthygl 4, bydd y Stryd Fawr & East Back, Penfro, wedi ei chau i bob traffig cerbydol yn cynnwys beiciau pedalau yn ystod yr oriau y bydd y ffair yn agored, sef:-

   **18:00 tan 23:45 dydd Iau'r 9 Hydref 2025**
   **18:00 tan 23:45 dydd Gwener y 10 Hydref 2025**
   **14:00 tan 23:59 dydd Sadwrn y 11 Hydref 2025**

3. Ni fydd dim yn erthygl 1 yn berthnasol i unrhyw gerbyd y mae'r gwasanaethau brys yn ei ddefnyddio, mynediad I breswylwyr lle bo hynny'n ymarferol, nac i gerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â chodi neu dynnu'r ffair i lawr.

4. Ni fydd dim yn erthygl 2 yn berthnasol i unrhyw gerbyd y mae'r gwasanaethau brys yn ei ddefnyddio nac i unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu gyfarwyddyd Swyddog o'r Heddlu.

5. Bydd gyrwyr cerbydau sy'n dod at y Stryd Fawr o Mill Bridge ac eisiau mynd ymlaen tua'r dwyrain ar hyd y Stryd Fawr i East End Square yn cael eu troi drwy Castle Terrace, Westgate Hill, Common Road, Orange Way a Well Hill.

6. Bydd gyrwyr cerbydau sy'n dod at Westgate Hill o Bont Cilmaen ac eisiau mynd ymlaen tua'r dwyrain ar hyd y Stryd Fawr i East End Square yn cael eu troi drwy Common Road, Orange Way a Well Hill.

7. Bydd y gorchymyn un ffordd ar gyfer Goose's Lane yn cael ei atal am hyd y cau er mwyn galluogi mynediad dwy ffordd i eiddo ar ei hyd.

Dyddiedig y 24 dydd hwn o Medi 2025

Sarah Edwards
Pennaeth Dros Dro Seilwaith a'r Amgylchedd
Cynor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd